OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2009 Rhif 1035 (Cy.90)

# Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

## Gorchymyn Ymddiriedolaethau Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cyfalaf Cychwynnol) (Cymru) 2009

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *22 Ebrill 2009* |
| *Yn dod i rym - -* | *23 Ebrill 2009* |

Mae Gweinidogion Cymru drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 21 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 a pharagraff 1 o Atodlen 4 iddi(**1**) ac yn unol â pharagraff 1(7) o Atodlen 4 i'r Ddeddf honno, drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

### Enwi, Cychwyn a Dehongli

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Ymddiriedolaethau Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cyfalaf Cychwynnol) (Cymru) 2009 a daw i rym ar 23 Ebrill 2009.

(2) Yn y Gorchymyn hwn ystyr "yr Atodlen" yw'r Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

### Cyfalaf Cychwynnol Ymddiriedolaethau'r GIG

**2.** Cyfalaf cychwynnol ymddiriedolaeth GIG a bennir yng ngholofn 1 yr atodlen yw'r swm a bennir gyferbyn ag ef yng ngholofn 2 yr Atodlen

*Edwina Hart*
Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru.

22 Ebrill 2009

(**1**) 2006 p.42.

## YR ATODLEN

Rheoliad 2

| *Ymddiriedolaeth GIG* | *Cyfalaf Cychwynnol* |
|---|---|
| Ymddiriedolaeth Brifysgol Gwasanaeth Iechyd Gwladol Abertawe Bro Morgannwg(**2**) | £485,420,000 |
| Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Cwm Taf(**3**) | £277,694,000 |
| Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Hywel Dda(**4**) | £165,253,000 |
| Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Gogledd Cymru(**5**) | £306,609,000 |

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn pennu swm cyfalaf cychwynnol, y darperir ar ei gyfer ym mharagraff 1 o Atodlen 4 i Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006, Ymddiriedolaethau Gwasanaethau Iechyd Gwladol penodol a sefydlwyd o dan y Ddeddf honno.

(**2**) O.S. 2008/716 (Cy. 75).
(**3**) O.S. 2008/717 (Cy. 76).
(**4**) O.S. 2008/712 (Cy. 73).
(**5**) O.S. 2008/1648 (Cy. 160).